# Nodau'r Canllawiau

Mae Cyngor Caerdydd wedi ymrwymo i gadw'ch plentyn yn ddiogel drwy ddull teg a chyson, ac atal trais, a meddu ar arfau yng Nghaerdydd. Fel Dinas sy'n Dda i Blant, mae Caerdydd yn cynnal Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn rhoi pobl ifanc wrth wraidd prosesau a phenderfyniadau.

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio pan fydd person ifanc yn cael ei ddarganfod yn meddu ar arf ar safle sefydliad addysg, naill ai'n fwriadol neu'n anfwriadol. Roedd Cyngor Caerdydd yn cydnabod bod llawer o broblemau'n wynebu pobl ifanc heddiw, a bod llawer o resymau pam y gall person ifanc gario arf. Disgwylir y bydd dull amlasiantaethol i gefnogi'r ysgol neu'r lleoliad addysgol i nodi ymyriadau cynnar addas a chreu newid cadarnhaol trwy'r cwricwlwm a diwylliant y lleoliad.

Gwybodaeth i Rieni/Gofalwyr





# Canllaw ar Arfau mewn Ysgolion a Lleoliadau Addysgol

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg
This document is available in English

CRYFACH TECACH GWYRDDACH

CARDIFF CAERDYDD



## CHWILIO

Os oes gan staff amheuaeth resymol bod person ifanc yn meddu ar arf ar dir yr ysgol neu'r lleoliad addysgol, efallai y bydd angen cwblhau chwiliad. Mae hyn yn bwysig er mwyn cadw pawb yn ddiogel. Yn 2013, cyflwynodd Llywodraeth Cymru bŵer, a nodir yn Adran 45 o Ddeddf Lleihau Troseddu Treisgar 2006, sy'n caniatáu i ysgolion yng Nghymru allu sgrinio unrhyw ddisgybl am gyllell neu arf arall, ac i gynnal chwiliad ar ddisgyblion sy'n cael eu hamau o gario arf.

### GALL AMHEUAETH GYNNWYS:

- Gwybodaeth gan staff, rhiant neu ddisgybl e.e. amheuaeth o weld, sgwrs wedi'i chlywed ac ati. Gwybodaeth gan y gymuned
- Ymddygiad y person ifanc e.e. iaith a/neu weithredoedd
- Deunydd teledu cylch cyfyng
- Gwybodaeth gan weithiwr proffesiynol (gweithiwr achos/gweithiwr cymdeithasol)
- Hysbysiad Diogelu'r Cyhoedd (HDC) yr Heddlu Gwybodaeth drwy'r cyfryngau cymdeithasol

### BETH FYDD YN DIGWYDD YN YSTOD CHWILIAD?

- Bydd dau aelod o staff yn bresennol.
- Bydd yn digwydd mewn lle diogel, synhwyrol.
- Bydd diben y chwiliad yn cael ei esbonio i'r person ifanc.
- Bydd rhieni/gofalwyr yn cael eu hysbysu ar ôl chwiliad, a bydd y rhesymau dros y chwiliad yn cael eu hegluro.
- Bydd staff yn defnyddio ffon chwilio i gael gwared ar unrhyw gyswllt corfforol â'r person ifanc.




## EIN NODAU

NOD 01 **Cadw pob plentyn yn ddiogel.**

NOD 02 **Cadw pob aelod o staff yn ddiogel.**

NOD 03 **Cefnogi pob plentyn i aros mewn addysg.**

NOD 04 **Cefnogi ysgolion a lleoliadau addysgol i helpu i atal plant rhag meddu ar arfau.**



## CYFARFODYDD ADOLYGU DIGWYDDIAD

Pan fydd arf wedi'i ddarganfod, dylid trefnu Cyfarfod Adolygu Digwyddiad. Mae'n ymateb amlasiantaethol i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r digwyddiad, ac i drafod pecyn priodol o gymorth i'r person ifanc a'r lleoliad addysgol. Nod y cyfarfod yw creu cynllun i ddeall sut y gall y person ifanc aros mewn addysg.

### GWYBODAETH ALLWEDDOL

Bydd pob lleoliad addysg yn dilyn yr un dull cyson:

- Ni ddylai'r person ifanc ddychwelyd i'r ysgol a'r lleoliad addysg nes bod y Cyfarfod Adolygu Digwyddiad wedi'i gynnal.
- Dylid **ei gynnal o fewn 5 diwrnod ysgol i'r digwyddiad.**
- Dylid cynnal o leiaf **un gwiriad lles dyddiol** trwy alwad ffôn.
- Dylid cynnal ymchwiliad sy'n seiliedig ar drawma i ddeall pam y daeth y person ifanc â'r arf i'r ysgol.
- Dylid gwahodd rhieni a/neu ofalwyr.